



Athrawes: Mrs Sioned King  
Cynorthwydd Dosbarth: Hayley Davies

*Croeso i dudalen ddosbarth blwyddyn 2.*

Enw ein dosbarth yw 'Ynys Bŷr' ac mae 28 o ddisgyblion yn y dosbarth.

Bwriad y dudalen hon yw i roi flas i chi o'r hyn sy'n digwydd yn ystafell ddosbarth blwyddyn 2 drwy gydol y flwyddyn.

Tymor yma bydd dosbarth 'Ynys Bŷr' yn astudio'r thema 'Dinbych Y Pysgod' o fewn i'r chwe maes dysgu.

Mae'r cyfnod sylfaen yn cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi disgyblion i fod yn greadigol, llawn dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Bydd y disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas trwy weithredu'r gweithgareddau strwythuredig a fydd yn ymgysylltu ac yn cymell i ddod yn ddysgwyr effeithiol, annibynnol a hyderus.



### Dysgu Adref

Mi fydd dysgu adref yn cael ei osod ar Ddydd Gwener, disgwylir i'r disgyblion ei gyflawni erbyn Dydd Mawrth. Mae'r tasgau'n cael eu gosod mewn ffeil electroneg y plant o fewn eu ffeiliau Hwb.



## Llyfrau darllen

Rydym yn ceisio darllen gyda'r disgyblion yn ddyddiol felly mae'n hanfodol eu bod nhw'n dod â'u llyfrau darllen bob dydd. Bydd llyfrau yn cael eu newid pan fydd disgybl wedi cyflawni'r llyfr ac yn dangos ei bod wedi deall yr hyn y maent wedi ei ddarllen. Rydym hefyd wedi gosod llyfrau darllen mewn ffolder ar gyfri Hwb pob plentyn er mwyn rhoi mwy o amrywiaeth i ddisgyblion a rieni.



## Ymarfer Corff

Mae sesiynau ymarfer corff yn cael eu chynnal ar fore Dydd Llun. Disgwylir i'r disgyblion newid i'w gwisg ymarfer corff cyn cymryd rhan. **Cit Ymarfer Corff: Crys t (Lliw eu tŷ) siorts/trowser tywyll ac esgidiau ymarfer corff.**

*\*Noder - Yn ystod y cyfnod Covid-19 mae angen i bob plentyn wisgo ei wisg addysg gorfforol i'r ysgol ar ddiwrnod ei sesiwn addysg gorfforol. Ni fydd yr ystafelloedd newid ar agor.*



## Mercher Mwdlyd

Mae angen hen ddillad ac esgidiau glaw ar eich plentyn pob dydd Mercher. Rydym yn gwneud ystod o weithgareddau yn ystod y prynhawn tu allan beth bynnag fo'r tywydd!